

Arolwg y Ffordd Gywir

Nodiadau Cyfarwyddyd i Benaethiaid ac Athrawon

Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru, a'i phrif rôl yw diogelu hawliau a lles plant a phobl ifanc. Mae Sally wedi cyhoeddi Y Ffordd Gywir: dull gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru. Canllaw ymarferol i ysgolion yw hwn, fel eu bod yn gallu datblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, gydag egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sylfaen. Mae'r arolwg hwn yn offeryn a fydd yn eich helpu i archwilio eich dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn yr ysgol a nodi meysydd i'w gwella.

Sut mae defnyddio'r arolwg hwn

Mae'r arolwg ar agor rhwng 6 Mai ac 7 Mehefin. I gymryd rhan, cysylltwch gyda ni [trwy ebost](#) gan nodi eich cyfeiriad ebost ac enw eich ysgol. Byddwn ni wedyn yn anfon cōd unigryw atoch chi er mwyn cymryd rhan.

Gall cynifer o athrawon ag y dymunwch yn eich ysgol gwblhau'r arolwg gan ddefnyddio cōd unigryw eich ysgol, a gall cynifer o ddisgyblion ag y dymunwch gwblhau'r arolwg disgyblion hefyd, gan ddefnyddio'r un cōd. Mae pob arolwg yn cymryd rhyw 10-15 munud. Po fwyaf o aelodau cymuned eich ysgol fydd yn cymryd rhan, mwyaf cywir fydd eich canfyddiadau.

Cefnogi Disgyblion

Bydd disgyblion yn cwblhau'r arolwg heb roi eu henw. Bydd eu hatebion yn cael eu coladu i'r adroddiad a anfonir i'ch ysgol. Does dim rhaid i'r disgyblion ateb popeth — gallan nhw anwybyddu unrhyw gwestiynau dydyn nhw ddim eisiau eu hateb a symud ymlaen. Mae un cwestiwn yn yr adran Amdanaf Fi sy'n gofyn i ddisgyblion ddewis eu grŵp ethnig, ac mae'n bosib y bydd angen i athrawon egluro beth yw ystyr hynny.

Pan brofon ni'r arolwg, fe gymerodd ryw 10-15 munud i ddisgyblion ei gwblhau. Mae'r cwestiynau cynradd wedi'u llunio ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ac maen nhw wedi cael eu profi gyda disgyblion ym Mlynnyddoedd 4, 5 a 6. Mae ein cwestiynau uwchradd yn addas ar gyfer disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 3, 4 a 5 ac maen nhw wedi cael eu profi gyda phobl ifanc ar draws yr ystod oed yma. Bydd disgyblion sy'n dewis math arall o leoliad yn cael eu cyfeirio i'r holiadur cynradd.

Gofynnir i chi gefnogi unrhyw ddisgyblion sydd angen hynny trwy eu galluogi i gael cefnogaeth un o'u cyfoedion neu oedolyn i siarad trwy'r cwestiynau neu eu hateb.

Defnyddio eich adroddiad ysgol

Pan fydd yr arolwg yn cau ar 7 Mehefin byddwn ni'n anfon adroddiad ysgol at yr athro cyswllt Llysgenhadon, yn crynhoi canfyddiadau eich ysgol chi ac yn dangos sut mae hynny'n cymharu ag ysgolion ledled Cymru. Gall eich disgyblion ddefnyddio'r adroddiad hwn i benderfynu ar feysydd y byddech chi'n hoffi eu gwella. Gallwch ddefnyddio'r data hwn hefyd yn dystiolaeth ar gyfer gofynion llesiant fframwaith 2017 Estyn. Byddwn ni'n agor arolwg Y Ffordd Gywir eto'r flwyddyn nesaf, er mwyn i chi fesur eich cynnydd yn ystod y flwyddyn.

Data eich ysgol

Snap Surveys fydd yn derbyn eich gwybodaeth ac yn cynhyrchu eich adroddiad. Yna anfonir adroddiad heb enwau i swyddfa'r Comisiynydd Plant yn crynhoi gwybodaeth o bob rhan o Gymru. Ni fydd modd adnabod ysgolion nac unigolion o'r atebion. Yr unig adeg pan fyddwn ni'n ceisio adnabod ysgol fydd yn y sefyllfa annhebygol lle codir mater diogelu yn y data. Os bydd hynny'n digwydd, byddwn ni'n rhoi gwybod i'r Pennaeth.

Sut byddwn ni'n defnyddio data

Byddwn ni'n defnyddio data heb enwau i ganfod arfer da yng Nghymru a hefyd i nodi themâu ar draws Cymru a fydd yn ein helpu i gefnogi ysgolion. Bydd yr wybodaeth hon heb enwau hefyd yn helpu i lywio blaenoriaethau Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc fel rhan o ymgynghoriad cenedlaethol Beth Nawr. Bydd y data'n cael ei storio gan Snap yn unol â'u polisi preifatrwydd a'r polisi diogelu data